Annwyl Gwsmer

Mae'n dda gennyf roi gwybod i chi ein bod wedi adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i Swyddfa Bost Larnog ddydd Llun 22 Mawrth 2021. Ail agorwyd y gwasanaeth yn yr un lleoliad yn Spar, Brockhill Way, Larnog, Penarth, CF64 5QD.

Mae'r gangen yn gwasanaethu cwsmeriaid o ddydd Llun i ddydd Gwener 07:00 – 19:00 a dydd Sadwrn a dydd Sul 07:00 – 18:00. Mae'n ddrwg iawn gennym am fod yn hwyr yn rhoi gwybod ichi'r tro hwn.

Yn ogystal ag ailagor y gangen, yn ystod y chwe mis cyntaf rydym yn treialu math newydd o wasanaeth Swyddfa'r Post.

Bydd y gangen ffasiwn-newydd yn cynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post o gownter Swyddfa'r Post isel â chynllun agored a bydd yn golygu y bydd yn hwylus i gwsmeriaid gael hyd i wasanaethau post a thalu biliau. Er mwyn hwylustod, ni fydd gwasanaethau bancio personol a busnes ar gael fel rhan o'r treial hwn. Bydd cwsmeriaid yn dal i allu talu am wasanaethau drwy ddefnyddio'r ffyrdd arferol o dalu, gan gynnwys arian parod a chardiau debyd/credyd. Mae manylion am yr oriau agor a'r cynhyrchion a gwasanaethau sydd ar gael i'w gweld drosodd.

Yn Swyddfa'r Post rydym drwy'r amser yn ceisio gwneud yn siŵr ein bod yn ateb gofynion ein cwsmeriaid, sy'n newid o hyd, a gwneud yn siŵr bod ein cynllun ar gyfer y rhwydwaith yn adlewyrchu hynny. Un ffordd yw rhoi cynnig ar rai fformatau Swyddfa'r Post ychwanegol ar raddfa fach cyn ystyried eu cyflwyno ar raddfa ehangach.

Mae'r fformatau hyblyg hyn yn rhoi mwy o gyfle i bostfeistri addasu eu canghennau i ateb eu anghenion nhw a gofynion y cwsmeriaid lleol. Cawsant eu datblygu fel bod mwy o wasanaethau hanfodol ar gael a bod pethau'n symlach i gwsmeriaid – gan gynnwys cyflymu gwasanaeth a chynnig amrywiaeth wahanol o gynhyrchon i gwsmeriaid. Yn ogystal, y nod yw gwneud rhedeg Swyddfa Bost yn symlach ac yn fwy gwerth chweil i bostfeistri – gyda llai o le a llai o staff. Wrth i ni ofalu am rwydwaith o wasanaethau Swyddfa'r Post ledled y DG, mae gennym gyfrifoldeb i wneud yn siŵr fod pob gwasanaeth yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau, ynghyd â sicrhau bod cwsmeriaid yn dal i allu cael mynediad i'n cynhyrchion a gwasanaethau. Rhaid i unrhyw wasanaeth fod yn fasnachol gynaliadwy i Swyddfa'r Post Cyf. ac i'n postfeistri sy'n rhedeg y gwasanaethau.

Mae gwasanaethau bancio personol a busnes ar gael o'r canghennau hyn, sydd gerllaw:

- Swyddfa Bost Cornerswell, 9 Cornerswell Road, Penarth, CF64 2UW
- Swyddfa Bost Penarth, 13 Glebe Street, Penarth, CF64 1ED

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn www.postoffice.co.uk/branch-finder

Wrth i ni dreialu'r gangen ffasiwn-newydd byddwn yn monitro'r defnydd ohoni, pa mor addas yw hi ac unrhyw ymateb lleol i'r gwasanaeth newydd. Os bydd rhaid newid y gwasanaeth, bydd posteri'n cael eu gosod yn lleol er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae croeso i chi rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol ag eraill a allai fod â diddordeb yn y gwasanaeth newydd.

Mae'r hysbysiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â'r Hysbysiad hwn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Gobeithiwn y byddwch chi a'r gymuned leol yn cefnogi rhwydwaith Swyddfa'r Post yn eich ardal.

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Yr eiddoch yn gywir

*Mathew Wilkes*

**Mathew Wilkes**
**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:
comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk.
FREEPOST Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

| **Oriau agor y Swyddfa Bost a'r gwasanaethau a fydd ar gael** |
|---|
| Llun-Gwen 07:00 - 19:00<br>Sad-Sul 07:00 - 18:00 |
| **Post** |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) |
| Signed For |
| Special Delivery |
| Post rhyngwladol hyd at 2kg |
| Casglu a dychwelyd parseli |
| **Teithio** |
| Casglu arian teithio a archebwyd ymlaen llaw ar-lein yn unig |
| **Arall** |
| Talu Biliau |
| Archebion Post |
| Terfynell Loteri Cenedlaethol |
| Cardiau Anrheg |
| **I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.** |

**<u>Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)</u>**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - (postofficeviews.co.uk)*

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol

*Byddwn yn Hysbysu – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:*

- Oriau agor y Swyddfa Bost
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn).

**postofficeviews.co.uk.**
**comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.